

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

24 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie,

Safle glo brig Ffos-y-Frân

Yr wyf yn ceisio eglurhad ynghylch nifer o faterion yn ymwneud â'r sefyllfa yng ngwaith glo brig Ffos-y-Frân ym Merthyr Tudful.

Fel y gwyddoch, mae'r pwll glo wedi bod yn destun cryn ddadlau a phryder yn y gymuned leol ac ymgyrchwyr amgylcheddol ers blynyddoedd lawer. Er bod ei ganiatâd cynllunio wedi dod i ben ym mis Medi 2022, mae'r pwll wedi parhau i weithredu, gan gloddio bron 200,000 tonn o lo yn y misoedd ar ôl i'r caniatâd cynllunio ddod i ben. Apeliodd y gweithredwr, Merthyr (South Wales) Ltd, yn ddiweddar yn erbyn hysbysiad gorfodi i atal y gwaith o gloddio am lo, proses a allai ganiatáu i'r pwll barhau i weithredu am flwyddyn arall neu fwy.

Mae nifer o gwestiynau pwysig yn codi am effaith amgylcheddol y pwll glo, effeithiolrwydd y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol, a'r effaith ar y gymuned leol. Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymateb i'r cwestiynau a ganlyn.

Yr effaith amgylcheddol

- O ystyried y posibilrwydd y gallai'r gwaith o gloddio am lo ar y safle barhau am fisoedd eto, pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i liniaru effaith hynny ar yr amgylchedd?
- Rydym yn deall y bydd y gwaith o adfer y tir yn costio, yn ôl yr amcangyfrif, rhwng £75 miliwn a £125 miliwn. Yn ôl y sôn, dim ond £15 miliwn y mae'r cwmni mwyngloddio wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith hwn. A allwch chi gadarnhau mai dyma'ch dealltwriaeth chi o'r sefyllfa? A allwch chi gadarnhau pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau bod y cwmni mwyngloddio'n talu'r costau adfer yn llawn?



Y Fframwaith Cyfreithiol a Rheoleiddio

- Mae gweithredwr Ffos-y-Fran wedi apelio yn erbyn yr hysbysiad gorfodi i atal y gwaith o gloddio am glo. A allwch chi roi rhagor o wybodaeth i mi am y broses apêl a'r ffactorau a gaiff eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad?
- Gallai'r broses apêl gymryd 12 mis neu ragor. Ai'ch dealltwriaeth chi yw y bydd y gwaith cloddio'n parhau yn ystod y cyfnod hwn?
- Pa opsiynau eraill sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i gyflymu'r broses apêl ac atal y gwaith cloddio?
- Yn ôl y BBC, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na all roi sylwadau ar yr apêl gan y gallai hynny beryglu unrhyw benderfyniad y bydd yn rhaid i weinidogion Cymru ei wneud yn y cyswllt hwn yn y dyfodol. A allwch chi egluro hyn a sut y mae'n cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i weithredu?
- Mae Cyngor Merthyr Tudful a Llywodraeth Cymru wedi'u cyhuddo o weithredu'n anghyfreithlon am beidio ag ymdrin â'r mater yn gynt a chyhoeddi "hysbysiad atal". Beth yw'ch ymateb chi i'r cyhuddiadau hyn?

Yr effaith ar y gymuned

- Yn ôl adroddiadau'r BBC, mae gweithredwr Ffos-y-Fran wedi datgan ei fod yn cynnal trafodaethau â'r awdurdod lleol i sicrhau y bydd y gwaith cloddio'n dod i ben yn ddiogel? A allwch chi roi rhagor o fanylion am eich rhan chi yn y trafodaethau hyn a'r mesurau sy'n cael eu hystyried i sicrhau y bydd y gwaith yn dod i ben yn ddiogel?
- Mae pwll glo Ffos-y-Frân yn gyflogwr pwysig yn yr ardal, ac mae tua 180 yn gweithio i'r cwmni. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r gweithwyr hyn a'r economi leol pan fydd y pwll glo yn cau?

Rydym yn deall bod y rhain yn faterion cymhleth y mae angen eu hystyried yn ofalus a phwyso a mesur y buddiannau amrywiol. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei safbwynt er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd, a rhaid iddi sicrhau bod y camau y mae'n eu cymryd yn gydnaws â'i hymrwymiaidau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a diogelu'r amgylchedd.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.